



Y Farchnad

• Senedd Cymru | Welsh Parliament •

Gorffennaf 2025 | July 2025



Rhestr mynychwyr sefydliadau

Organisation attendee list

Conffederasiwn GIG Cymru

Welsh NHS Confederation.....5

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Competition and Markets Authority.....6

Two Rhythms

Two Rhythms.....9

Y Post Brenhinol

Royal Mail10

BookTrust Cymru

BookTrust Cymru.....11

Thrive Women's Aid

Thrive Women's Aid13

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai

Welsh Cross Party Group on Beer and Pubs14

Wales & West Utilities

Wales & West Utilities.....15

Network Rail Cymru a'r Gororau / TrC / GWR

Network Rail Wales & Borders / Tfw / GWR
.....16

Severe ME Difrifol Cymru

Severe ME Difrifol Cymru.....18



Conffederasiwn GIG Cymru

Welsh NHS Confederation

Bydd Conffederasiwn GIG Cymru, y corff aelodaeth ar gyfer arweinwyr y GIG yng Nghymru, yn trafod yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, Adeiladu iechyd a llesiant y genedl.

Mae'r adroddiad yn nodi'r pum newid arwyddocaol y mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru eu gwneud i adeiladu iechyd a llesiant y genedl a sicrhau cynaliadwyedd y system iechyd a gofal cymdeithasol. Dewch draw i gael tynnu eich llun a chael trafodaeth gydag aelodau o dîm Conffederasiwn GIG Cymru.

The Welsh NHS Confederation, the membership body for NHS leaders in Wales, will be discussing the recently published report: 'Building the health and wellbeing of the nation'.

The report sets out the five significant changes the next Welsh Government must make to build the health and wellbeing of the nation and ensure the sustainability of the health and social care system. Drop by to have your photo taken and have a discussion with members of the Welsh NHS Confederation team.

Noddir gan | Sponsored by: Peredur Owen Griffiths AS/MS



**Welsh NHS Confederation
Conffederasiwn GIG Cymru**

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Competition and Markets Authority

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yw'r awdurdod cystadleuaeth a defnyddwyr ar gyfer y DU a byddwn yn y Senedd i ymateb i gwestiynau am y gwaith rydym yn ei wneud yma yng Nghymru.

Rydym yn ymchwilio i farchnadoedd nad ydynt, yn ein barn ni, yn gweithio, a hynny er budd gorau defnyddwyr. Rydym hefyd yn rheoleiddio gwaith uno cwmnïau ac yn cyhoeddi canllawiau i ddefnyddwyr a busnesau. Rydym yn gweld economi gystadleuol, lle mae defnyddwyr yn cael eu diogelu, yn ganolog i dwf economaidd ledled Cymru a'r DU gyfan. Rydym yn amcangyfrif ein bod wedi dod â buddion o dros £129 miliwn i ddefnyddwyr Cymru dros y tair blynedd diwethaf.

Bydd nifer o gydweithwyr o'r swyddfa yng Nghymru yn hapus iawn i drafod ein gwaith gydag Aelodau o'r Senedd, a gallai gynnwys ein gwaith mewn meysydd gwariant hanfodol fel bwydydd, tai, milfeddygaeth a thanwydd ffyrdd.

Noddir gan: Sioned Williams AS



Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Competition and Markets Authority

The CMA is UK's competition and consumer authority and we shall be in the Senedd to take questions about the work we are doing here in Wales.

We investigate markets which we think aren't working in the best interests of consumers. We also regulate mergers and issue guidance to consumers and business. We see a competitive economy, where consumers are protected, as central to economic growth across Wales and the whole UK. We estimate we have brought benefits of over £129m to Welsh consumers over the last three years.

A number of colleagues from the office in Wales will be very happy to discuss our work with MSs, which could cover our work in essential spending areas like groceries, housing, vets and road fuel.

Sponsored by: Sioned Williams MS





Two Rhythms

Two Rhythms

Elusen ar gyfer celfyddyd hygyrch yw Two Rhythms, sy'n newid bywydau drwy gerddoriaeth a symud.

Gan ddefnyddio ein rhaglenni therapiwtig unigryw, rydym yn cynnig buddion iechyd a llesiant hirdymor i bobl ag anableddau dwfn, gan alluogi mynegiant, cysylltiad a llawenydd.

—

Two Rhythms is an accessible arts charity that changes lives through music and movement.

Utilising our unique, therapeutic programmes, we deliver long-lasting health and wellbeing benefits to people with profound disabilities, enabling expression, connection and joy.

Noddir gan | Sponsored by: Julie Morgan AS/MS

Two 
Rhythms

Y Post Brenhinol

Royal Mail

Fel unig Ddarparwr Gwasanaeth Cynhwysol (USP) dynodedig y DU, mae'r Post Brenhinol yn falch o ddarparu gwasanaeth 'un pris i unrhyw le' ar ystod o lythyrau a pharseli i dros 1.8 miliwn o gyfeiriadau yng Nghymru a 32 miliwn o gyfeiriadau ledled y DU, chwe diwrnod yr wythnos.

Yn gynharach eleni, ymgynghorodd Ofcom ar ddiwygio'r Gwasanaeth Post Cyffredinol sydd, meddai, ei angen ar frys i adlewyrchu'r hyn sydd ei angen ar bobl ac i amddiffyn ei ddyfodol. Ymunwch â ni i ddysgu rhagor am y gwasanaethau a'r newidiadau arfaethedig hyn yn eich etholaeth.

—

As the UK's sole designated Universal Service Provider (USP), Royal Mail is proud to deliver a 'one price goes anywhere' service on a range of letters and parcels to over 1.8 million addresses in Wales and 32 million addresses across the UK, six days a week.

Earlier this year, Ofcom consulted on reform of the Universal Postal Service which, they say, is urgently needed to reflect what people need and to protect its future. Join us to learn more about these proposed changes and services in your constituency.

Noddir gan | Sponsored by: Sam Kurtz AS/MS



BookTrust Cymru

BookTrust Cymru

Ni yw elusen fwyaf y DU yn ymwneud â darllen plant, a'n cenhadaeth yw cael pob plentyn yn darllen yn rheolaidd a thrwy ddewis.

Fel bod pob plentyn, yn enwedig y rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf trwy gefndiroedd incwm isel a bregus, yn profi manteision uniongyrchol darllen a'r manteision gydol oes. Caiff cyfran fawr o'n gwaith ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn cyflwyno rhaglenni'n ddwyieithog ar draws pob un o'r 222 awdurdod lleol.

—

We are the UK's largest children's reading charity, and our mission is to get every child reading regularly and by choice.

Our mission is for all children, especially those facing the biggest challenges through low-income and vulnerable backgrounds, to experience the immediate and lifelong benefits of reading. A large portion of our work is funded by the Welsh Government, and we deliver programmes bilingually across all 222 local authorities.

Noddir gan | Sponsored by: Jayne Bryant AS/MS





Thrive Women's Aid

Thrive Women's Aid

Prosiect Ymchwil ar y cyd rhwng Thrive Domestic Abuse Services a Phrifysgol Bangor.

Maent am werthuso effaith cam-drin domestig yn dilyn newidiadau cyflogaeth yn Tata Steel ym Mhort Talbot.

—

Collaborative Research Project between Thrive Domestic Abuse Services and Bangor University.

It's to evaluate the impact of domestic abuse following the Tata Steel employment changes in Port Talbot.

Noddir gan | Sponsored by: David Rees AS/MS



Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai

Welsh Cross Party Group on Beer and Pubs

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol Cymreig ar Gwrw a Thafarndai yn hyrwyddo pwysigrwydd cymdeithasol ac economaidd y sector bragu a thafarndai yng Nghymru.

Gyda thua 100 o fragdai, yn amrywio o rai bach annibynnol i gwmnïau mawr byd-eang, a bron i 3,000 o dafarndai, mae'r sector yn cefnogi tua 43,000 o swyddi ledled Cymru, gan wneud cyfraniad sylweddol i economïau lleol. Mae hefyd yn rhan allweddol o'r economi ymwelwyr ac yn ysgogi twristiaeth yng Nghymru.

—

The Welsh Cross Party Group on Beer and Pubs promotes the social and economic importance of the brewing and pub sector in Wales.

With around 100 breweries, ranging from small independents to global concerns, and almost 3,000 pubs, the sector supports approximately 43,000 jobs across Wales, making a significant contribution to local economies. It is also a key part of the visitor economy and driving tourism in Wales.

Noddir gan | Sponsored by: Joel James AS/MS



Wales & West Utilities

Wales & West Utilities

Mae Wales & West Utilities, y gwasanaeth argyfwng nwy a phiblinellau, yn cadw'r ynni yn llifo i 7.5 miliwn o bobl ar draws de-orllewin Cymru a Lloegr.

Rydym wedi ymrwymo i wneud newidiadau i helpu ein cwsmeriaid a gweddill y DU i gyrraedd allyriadau sero net. Yn ogystal â dosbarthu ynni dibynadwy bob dydd, rydym yn buddsoddi ac yn arloesi i wneud sero net yn realiti, gan archwilio sut y gallwn aildddefnyddio ein 35,000km o bibellau ar gyfer nwyon gwyrdd fel hydrogen a biomethan.

—

Wales & West Utilities, the gas emergency and pipeline service, keeps the energy flowing to 7.5m people across the south west of England and Wales.

We have committed to making changes to help our customers and the rest of the UK reach net zero emissions. As well as distributing reliable energy every day, we're investing and innovating to make net zero a reality, exploring how we can re-use our 35,000km of pipes for green gases like hydrogen and biomethane.

Noddir gan | Sponsored by: Delyth Jewell AS/MS



Network Rail Cymru a'r Gororau / TrC / GWR

Network Rail Wales & Borders / TfW / GWR

Bydd y tîm Materion Cyhoeddus o Network Rail Cymru a'r Gororau, Trafnidiaeth Cymru (TrC) a Great Western Railway (GWR) ar gael i gwrdd ag Aelodau a'u staff sy'n dymuno trafod unrhyw gyfleoedd neu heriau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Bydd cydweithwyr TrC hefyd wrth law i rannu diweddariad ar yr hyn yr ydym yn ei wneud i baratoi ar gyfer diwygio gwasanaethau bysiau ac ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Byddwn hefyd wrth law i drafod pa gefnogaeth y gallwn ei darparu ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau, cyfarfodydd, ymweliadau neu gyfleoedd ymgysylltu cymunedol sydd ar y gweill ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau y gallai Aelodau fod â diddordeb eu trefnu.

Noddir gan: Peter Fox AS



Network Rail Cymru a'r Gororau / TrC / GWR

Network Rail Wales & Borders / TfW / GWR

The Public Affairs team from Network Rail Wales and Borders, Transport for Wales (TfW) and Great Western Railway (GWR) will be available to meet Members and their staff who wish to discuss any opportunities or challenges regarding public transport in Wales.

TfW colleagues will also be on hand to share an update on what we are doing to prepare for the reform of bus services and to answer any questions or concerns.

We will also be on hand to discuss what support we can provide for any upcoming events, meetings, visits or community engagement opportunities across the Wales and Borders network that Members may be interested in arranging.

Sponsored by: Peter Fox MS



Severe ME Difrifol Cymru

Severe ME Difrifol Cymru

Mae 25% o gleifion ag ME yn cael eu categorreiddio gan NICE fel Difrifol (yn bennaf yn gaeth i'r gwely/yn gaeth i'r tŷ) a Difrifol iawn (yn hollol gaeth i'r gwely) – ac angen gofal llawn amser ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, gofal lliniarol a bwydo â thiwb – ond yn aml dyma'r cleifion a gaiff y lleiaf o ofal a thriniaeth gan y GIG.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau ME a ariennir gan Adferiad ym mhob Bwrdd Iechyd yn gwneud darpariaeth arbenigol sy'n briodol i anghenion y rhai sydd â ME Difrifol a Difrifol iawn – yn unol â Chanllawiau NICE yn 2021 (NG206) ac argymhellion adroddiad Crwner yn Lloegr y llynedd, Prevention of Future Deaths Report (PFDR).

Gofynnwn i Aelodau'r Senedd o bob plaid gefnogi'r cynnig sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd i'w drafod (8884).

Noddir gan: Adam Price AS

The logo for Severe ME Difrifol Cymru, featuring the text "SEVERE ME DIFRIFOL CYMRU" in white on a blue background.

Severe ME Difrifol Cymru

Severe ME Difrifol Cymru

25% of patients with ME are categorised by NICE as Severe (mainly bedbound/housebound) and Very Severe (fully bedbound) – requiring full-time care and, in the severest cases, palliative care and tube feeding – yet it is often these patients who are provided by the NHS with the least amount of care and treatment.

We are calling on the Welsh Government to ensure that the Adferiad funded ME services in each Health Board are making specialist provision appropriate to the needs of those with Severe and Very Severe ME – in line with NICE Guidance 2021 (NG206) and the recommendations of last year's Coroner's Prevention of Future Deaths Report in England (PFDR).

We ask Members of the Senedd from all parties to support the motion currently being considered for debate (8884).

Sponsored by: Adam Price MS

The logo for Severe ME Difrifol Cymru, featuring the text "SEVERE ME DIFRIFOL CYMRU" in white on a blue background.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales